**Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 26 Tachwedd 2024 yng Nghaffi Beca am 7.30pm**

**Yn bresennol:** Russell Davies (Cadeirydd), Dennis Jones, Anthony Eynon, Tudur Lewis, Anthony Jenner, Rebecca Jaimangal-Jones, Ffion John, Michael Fussell, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

Hefyd yn bresennol ar gyfer eitem 1 UFA: Alun Evans, John Lewis, Bethan Rilstone

1. **Ymddiheuriadau:** Julian Williams

Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod gan ddweud ei bod yn braf iawn gweld TL nôl gyda ni yn ein plith. Estynwyd croeso hefyd i gynrychiolwyr Capel Hebron.

**2. Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

**3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf 24/9/2024:**

– Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 24/9/24 yn gywir gan FfJ ac eiliwyd gan AJ.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

- **Cam gweithredu: JM i ofyn i'r dylunydd ddylunio logo i'r Cyngor**

– Mae JM wedi anfon e-bost ond yn disgwyl ateb.

- **Cam gweithredu: RJJ i drafod mater gatiau'r ysgol gyda phennaeth yr ysgol. RJJ hefyd i drafod gallu cael mynediad at gyflenwad dwr ar gyfer yr ardd gymunedol**

– Mae gatiau'r ysgol bellach ar agor. Bydd RJJ yn trafod gallu cael mynediad at gyflenwad dwr i'r ardd gymunedol.

- **Cam gweithredu: FfJ i drefnu Geocash yn ardal llwybrau troed y prosiect er mwyn denu mwy o ymwelwyr i'r safle**

– Dywedodd FfJ bod gwaith paratoi'r Geocash ar waith.

- **Cam gweithredu: JM i ofyn i Jamie King am adroddiad gweithgaredd h.y. faint o bobl sydd yn ymweld â gwefan y Cyngor gan y gallai'r ffigyrau hyn gael eu cynnwys yn nhargedau'r prosiect**

– Dywedodd JM bod Jamie King wedi anfon adroddiad cynhwysfawr o weithgaredd yn ymwneud â'n gwefan. O Rhagfyr 2023 i Tachwedd 2024 mae'r wefan wedi cael 288 o ddefnyddwyr yn ymweld â'r wefan. O Fedi 2024 ymlaen mae'r traffig yn fwy o gymharu ag yn gynharach yn y flwyddyn pan oedd y safle'n newydd. Yr adran fwyaf boblogaidd yw'r dudalen newyddion.

- **Cam gweithredu: JM i roi gwybodaeth am y Cynllun Datblygu Lleol ar wefan, tudalen Facebook a hysbysfwrdd y Cyngor**

– Cadarnhaodd JM bod gwybodaeth am y CDL ar y wefan a bydd yn ei roi ar hysbysfwrdd y Cyngor cyn gynted.

- **Cam gweithredu: JM i gysylltu â chlerc Llanboidy i holi a ydy'r Cyngor yn hysbysebu trigolion o unrhyw geisiadau cynllunio**

– Mae JM cysylltu â Chlerc Llanboidy a chadarnhawyd nad yw Cyngor Cymuned Llanboidy yn rhannu ceisiadau cynllunio gyda'r gymuned, dim ond gydag aelodau'r cyngor gan fod y Cyngor Sir yn rhoi hysbysiadau cyhoeddus i fyny.

- **Cam gweithredu: JM i ofyn i'r Cyngh DP i ymchwilio i delerau'r cae y gwnaed cais i gynnal motorcross arno**

– Adroddwyd bod disgwyl cyfreithiol i'r perchennog lefelu'r tir yn ôl i dir pori yn unol â'r amodau cynllunio, ar ôl ei ddefnyddio fel trac rasio. Deellir bod hyn ar waith ac yn cael ei ddilyn i fyny gan y swyddog gorfodi.

- **Cam gweithredu: JM i drefnu cyfarfod gyda'r perchennog tir, i gwrdd â Jason Lawday, y Cyngh DP a RD cyn gynted â phosib. JM hefyd i anfon e-bost yn cydnabod y llythyr**

– Adroddwyd bod cyfarfod wedi cael ei gynnal ddydd Gwener 18 Hydref gyda RD, DP, JL a pherchnogion Lletty a chawson nhw gyfle i drafod y materion a nodwyd yn eu llythyr. Pwysleisiwyd gan fod Llwybr Landsker yn mynd drwy eu tir, bod gan y cyhoedd hawl i'w gerdded. Cadarnhaodd JM bod y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod hwn gyda'r perchnogion wedi cael eu gwneud, sef hysbysebu mannau mynediad eraill llwybrau cyhoeddus y prosiect a rhoi gwybod i berchnogion Lletty am unrhyw deithiau cerdded eraill a drefnir gan y Cyngor yn y dyfodol.

**4. Diweddariad ar y Prosiect Adfer Llwybrau Troed**

– Adroddodd JM fod y prosiect yn mynd yn ei flaen yn dda a'i fod bron â dod i ben. Mae gwaith adfer y llwybrau troed wedi gorffen. Gwnaeth gwirfoddolwyr waith rhagorol yn clirio llwybr Pantyrodyn yn ystod y penwythnos cyntaf ym mis Tachwedd. Mae Jason Lawday nawr yn paratoi'r gorchymyn dargyfeirio olaf, a fydd allan cyn bo hir ar gyfer ymgynghoriad. Ar ôl ei gymeradwyo, bydd mapiau OS yn cael eu diweddaru i adlewyrchu'r llwybrau newydd.

– Mae 'brushcutter' wedi cael ei brynu am £925, gan gynnwys helmed, ac fe'i defnyddiwyd i glirio llwybr Pantyrodyn.

– Roedd yr agoriad swyddogol yn llwyddiant, gyda rhwng 60 a 70 yn bresennol, gan gynnwys sawl aelod o'r gymuned yn ymuno yn Bar Beca. Fe wnaeth RD a DP areithiau agoriadol. Gwnaed llawer o waith paratoi yn ystod yr wythnos cyn yr agoriad i sicrhau bod popeth yn iawn. Darparodd Bar Beca bwffe, gyda bwyd ychwanegol wedi'i baratoi ar gost o £364 oherwydd y nifer uwch wedi troi allan.

– Cynhaliwyd y daith gerdded olaf o dan y prosiect grant ar 15 Tachwedd.

– O ran y grant, cafodd hawliad 13 ei gyflwyno ganol mis Hydref am daliad terfynol i'r contractwr o £2,480, sydd wedi'i brosesu. Cafodd hawliad 14 ei gyflwyno yn ddiweddar am gost y 'brushcutter' o £775, ond ni ellir hawlio TAW. Mae £117 ar ôl ar gyfer offer, a bydd angen i JM wybod a fydd hyn yn cael ei wario. Dywedodd AJ y byddai'n dda i brynu tanc petrol ar gyfer yr offer a chytunodd pawb i AJ fynd ati i brynu hwn.

– Mae'r prosiect yn agos at gyrraedd ei dargedau, a fydd yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod olaf yr is-grŵp ar 16 Rhagfyr.

– Diolchodd RD i JM ac i'r is-grŵp am eu holl waith yn goruchwylio'r prosiect hwn ac am wneud yn siwr ei fod yn cael ei weithredu yn ôl y gofynion. Diolchwyd hefyd i RD am sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth ac yn hwylus, gan gyfathrebu'n rheolaidd gyda pherchnogion tir y prosiect hwn.

**5. Gohebiaeth**

- Derbyniwyd cais am gymorth ariannol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro 2025. Cytunwyd peidio â chyfrannu gan nad yw o fewn y sir
- Derbyniwyd cais am gymorth ariannol ar gyfer Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Caerfyrddin. Cytunwyd rhoi cyfraniad o £100.
- Derbyniwyd cais am gymorth ariannol gan Ambiwlans Awyr Cymru ar gyfer eu Hapêl 2024 i uwchraddio eu hofrenyddion. Cytunwyd rhoi cyfraniad o £200.
- Derbyniwyd e-bost gan PCSO Hefyn Davies a PCSO Sarah Thomas, Heddlu Dyfed Powys sydd wedi'u lleoli yn Hendygwyn ac yn edrych ar ôl yr ardal hon. Byddan nhw yng Nghaffi Beca unwaith y mis i roi cyfle i bobl leol gwrdd â nhw a thrafod unrhyw broblemau sydd gyda nhw. Maen nhw'n gofyn a all y Cyngor hysbysebu hyn ar ein tudalen Facebook. Cytunodd pawb â hyn.
- Derbyniwyd gwybodaeth am y Cynllun Perthyn, sef cynllun grantiau bach sy'n rhoi cymorth ariannol i gymunedau yng Nghymru â diddordeb mewn datblygu syniadau menter gymdeithasol neu grwp cymunedol lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn gyson. Mae Planed ynghlwm wrth y cynllun hwn.
  **Cam gweithredu: JM i wahodd Rheolwr Prosiect Perthyn i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol i roi mwy o wybodaeth am y cynllun**
- Derbyniwyd gwybodaeth am gyllid o £1.5 miliwn sydd ar gael ar gyfer creu hybiau diogel a chynnes ledled Cymru. Trafodwyd y posibiliadau – byddai angen gwirfoddolwyr; byddai angen rhywle â adnoddau yn barod
  **Cam gweithredu: JM i ymchwilio ymhellach i'r grant hybiau diogel a chynnes**
- Derbyniwyd cadarnhad bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cwblhau ei adolygiad o'r dosbarthau a'r mannau pleidleisio ar gyfer wardiau. Y man pleidleisio ar gyfer yr etholiadau nesaf yn 2026 fydd Caffi Beca i gymuned Cilymaenllwyd.
- Cadarnhaodd JM fod datganiad o daliadau Cynghorwyr ar gyfer 2023/24 wedi cael ei gyflwyno i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'i fod ar y wefan hefyd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru (Adran 151 o Fesur Llywodraeth Leol 2011).

**Adolygu a chymeradwyo ceisiadau am gymorth ariannol 24/25**

- Dywedodd JM bod 4 cais am gymorth ariannol wedi cael eu cyflwyno drwy'r broses newydd yn nodi sut byddai'r arian yn cael ei wario; cyfanswm o £6,000:
- Cymdeithas Cwm Cerwyn – Ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth: cais o £1,000. Cytunwyd y cais hwn yn llawn.
- Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen: cais o £500. Cytunwyd y cais hwn yn llawn.
- Cylch Meithrin Ffynnonwen: cais o £1500. Cytunwyd y cais hwn yn llawn.
- Ysgol Beca: cais o £3000. Cytunwyd y cais hwn yn llawn.
  **Cam gweithredu: JM i gadarnhau'r cymorth ariannol gyda'r 4 sefydliad a gwneud y taliadau**

**6. Diweddariad cyllid ac arwyddo sieciau**

- Derbyniwyd y fantolen banc ddiwethaf ar 18 Hydref yn nodi bod £9,685.89 yn y cyfrif cyfredol. Gwiriodd JM y cyfrif cyfredol arlein ar 23 Tachwedd ac roedd £7,533.41 ynddo a oedd yn cynnwys y taliadau canlynol:
    - Riverlea – brushcutter - £925.00
    - Bar Beca – £364.00

  Mae £775.00 ar fin dod i mewn o'r grant a'r cyfanswm wedyn fydd £8,308.41.

- Arwyddo sieciau
  - Caffi Beca – £25 llogi lleoliad
  - Yswiriant – £621.20 (gweler adran 9)
  - Ceisiadau am gymorth ariannol – cyfanswm o £6,000 (gweler uchod)
  - Ambiwlans Awyr Cymru – £200
  - Apêl Teganau Nadolig – £100

**Cofrestr Asedau 24/25**

- Diweddarwyd y gofrestr asedau i gynnwys yr hysbysfwrdd, y ‘brushcutter’ a’r ciosg sydd wedi cael ei adfer.  Arwyddwyd y gofrestr gan RD

**Rheoliadau Ariannol Newydd**

- Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi model rheoliadau ariannol newydd ar gyfer cynghorau. Maen nhw’n cynnwys canllawiau ar sut ddylai’r Cyngor eu mabwysiadu yn ôl ei ofynion penodol ei hun.
  **Cam gweithredu:  JM i gyflwyno fersiwn drafft o’r rheoliadau ariannol newydd yn y cyfarfod nesa**

**Terfyn Gwariant Adran 137 ar gyfer 2025-26**

- Derbyniwyd cadarnhad mai’r swm priodol at ddibenion adran 137 ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yw £11.10 fesul etholwr. Gwariant yw hwn er budd yr ardal. Dywedodd JM bod 643 o etholwyr yng Nghilymaenllwyd, felly gallai gwariant Adran 137 fod hyd at £7,137.30.

## 7. Cynllunio

- Mae 2 gais cynllunio wedi cael eu cyflwyno ers y cyfarfod diwetha:
  - PL/08294 – dymchwel tŷ 2 ystafell wely ac ailddatblygu safle i adeiladu tŷ 4 ystafell wely a garej. Trosi'r sgubor presennol yn annex 1 ystafell wely gyda mynediad newydd i gerbydau o dir cyfagos - Rhosnewydd, Efailwen, Clunderwen, SA66 7XE
  - PL/08287 – estyniad a newidiadau – Pant Y Blodau, Efailwen, Clunderwen, SA66 7XG

  Nid oedd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau

## 8. Diweddariad y Cynghorydd Sir

- Dywedodd DP bod llawer o waith adfer wedi cael ei wneud ar y ffyrdd yn Efailwen ond mae llawer dal angen ei wneud
- Dydy’r gwaith trasho ar bwys Penybanc ddim wedi cael ei wneud ac mae llawer o dyllau ar y ffordd ar bwys Rhydymerydd a choeden wedi cwympo ar bwys Pencraig Uchaf
- Riportiodd DP y twll mawr ar y ffordd i Grymych o Glandy Cross a chafodd ei wneud yn syth
- Mae’r tipio anghyfreithlon yn Ynys Fach dal yn broblem
- Problem llifogydd ar y cornel ym Mhantycaws
- Mae’n debyg na fydd ffyrdd yn yr ardal hon yn cael eu gritio adeg cyfnodau o rew
- Bandeang – Open Reach fydd yn gwneud y gwaith uwchraddio yn yr ardaloedd gwledig nawr ac nid Voneus gan eu bod wedi tynnu allan. Mae’r sefyllfa yn edrych yn addawol

## 9. Iechyd, Diogelwch a Lles

- Adnewyddu'r Yswiriant: Dywedodd JM bod angen adnewyddu yswiriant y Cyngor erbyn 3 Rhagfyr. Derbyniwyd dyfynbris o £621.20 gan Clear Councils sydd yn £81 yn fwy na'r llynedd. Mae gostyngiad o £14 os yn ymrwymo i gontract tymor hir tan 2027. Mae JM wedi gofyn i Zurich am ddyfynbris ond heb ei dderbyn eto. Cytunwyd i dderbyn yr yswiriant rhataf gan sicrhau bod yswiriant digonol gyda'r Cyngor.

**10. Bioamrywiaeth**

- Gosodwyd tri monitor ystlumod yn ardal y prosiect i asesu presenoldeb unrhyw rywogaeth ystlumod arbennig. Mae'n debyg bod ystlumod Barbastelle yn preswylio yn yr ardal. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent yn paratoi adroddiad ar hyn o bryd a byddan nhw'n ei rannu gyda ni. Bydd JM yn diweddaru'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth a bydd angen ysgrifennu adroddiad bioamrywiaeth ym mis Ebrill/Mai.

**11. Unrhyw Fater Arall**

- Ar ran ymddiriedolwyr Capel Hebron, cyflwynodd BR gynnig i'r Cyngor ei ystyried, sef i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw dwy fynwent Capel Hebron, yn dilyn cau'r capel yn ddiweddar a'i restru ar werth. Mae'r ymddiriedolwyr yn cynnig rhoi'r enillion mewn cyfrif banc pwrpasol, gyda'r disgwyliad y byddai'r Cyngor yn trefnu i gontractwyr gynnal a chadw'r mynwentydd ar gost flynyddol amcangyfrifedig o £900. Mae'r ymddiriedolwyr wedi ymgynghori â'r Undeb a chynghorwyr cyfreithiol, a awgrymodd ffurfio pwyllgor, ond gan nad oes digon o aelodau, nid yw hyn yn ymarferol. Byddai hawliau claddu yn caniatáu claddu cyn-aelodau am ddim, tra byddai'r rhai nad ydynt yn aelodau yn talu ffi o £200. Dywedodd JM ei bod wedi cysylltu â Cris Tomos, a oedd wedi darparu enghreifftiau o drefniadau posibl. Nododd BR gymhlethdod y broses gyfreithiol. Fe wnaeth y Cyngor gydnabod pwysigrwydd y mynwentydd i'r gymuned gan fynegi diddordeb ond cytunwyd ymgynghori â'r Cyngor Sir a chynnal ymchwiliadau pellach cyn gwneud penderfyniad.
  **Cam gweithredu: Y Cyngor i ymholi ymhellach ynghylch y posibilrwydd o gymryd drosodd cyfrifoldeb am gynnal a chadw mynwentydd Hebron ac adrodd nôl ymddiriedolwyr Capel Hebron**
- Dywedodd AE nad oedd am ymgymryd â'r rôl is-gadeirydd eleni na chadeirydd y flwyddyn nesa. Cytunodd RJJ i fod yn isgadeirydd ac yna'n gadeirydd y flwyddyn nesa.

**12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** Nos Fawrth 28ain Ionawr 2025

*Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 9.30pm*

Arwyddwyd

Cadeirydd: T R Davies ……………………………… Dyddiad: 28/01/2025